Cofnodion o Gyfarfod Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar Nos Fercher 2il o Fawrth 2005,yn Neuadd y Sir , Llandeilo am 7.00pm

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace Cyng Fran Murphy, June Stait, clerc.

Ymddiheuriadau: Cyng David Jones Cyng Paul Faulkner

6397/Maw/05 Ceisiadau Cynllunio am ystyriaeth:

Cefnogwyd y ceisiadau cynllunio canlynol;:

E0 9380 Caniatâd Cynllunio Llawn i ddymchwel hen garej ac adeiladu garej arwahan newydd, at 55 Stryd Rhosmaen , Llandeilo

E0 9220 Gofynnwyd am ganiatâd Cynllunio Llawn i droi fflat llofft a dwy ystafell lawr llawr i mewn i siop yn 9 King Street, Llandeilo

E0 9390 Gofynnwyd am ganiatâd cynllunio llawn i newid capel i mewn i bedair swyddfa at (Capel Coffa) Memorial Chapel, George Hill, Llandeilo

6398/Mar/05 Cais Cynllunio a dynnwyd yn ôl:

Nodwyd fod y cais cynllunio canlynol wedi'i dynnu yn ôl :

E0 8998 Annedd arfaethedig wrth gefn eiddo sy'n bodoli'n barod ar dir yn gyfagos at 11 Heol Clarence , Llandeilo.

6399/Maw/05 Ceisiadau Cynllunio a ganiatawyd.:

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

E0 8596 Trawsnewid coets dy a gweddillion stabl i mewn i annedd ar safle yn gyfagos at "Bays Hill" Teras yr Abaty, Llandeilo

E0 8597 I adnewyddu adeilad sy'n rhannol adfail a'i drawsnewid I dy ar safle yn gyfagos at "Bays Hill" Teras yr Abaty, Llandeilo

6400/Maw/05 Gorchymyn coed-gadwraeth

Cefnogwyd cais gan y Cyngor oddi wrth Dyfed Tree Care i leihau coron Ywen Llys y Gwyddel yn nhir Sant Teilo sydd o dan orchymyn coed-gadwraeth.

6401/Maw/05 Trwyddedi

Nodwyd fod Patel's Crown Stores , 56 New Road , Llandeilo wedi ymgeisio am drwydded gwerthu alcohol.

6402/Maw/05 Golau

Gwneir cais at y Cyngor Sir i gywiro'r ffaith fod diffyg golau allanol yn yr ardal wrth ochr y Swyddfeydd Dinesig yn y Maes Parcio yn Llandeilo . Nodwyd hyn ym Mis Chwefror wrth i Gyngor y Dre gael mynediad drwy ddrws yr ochr i Gyfarfod Llawn y Cyngor.

6403/Maw/05 Maes Parcio Coetsis

Cafwyd e-bost wedi'i gopïo gan Gyngor y Dre oddi wrth aelod o'r cyhoedd parthed y posibilrwydd o ddarparu maes parcio coetsis yn y dre; nodwyd hyn.

6404/Mawrth/05 Plac Coffa ar goll

Nodwyd gan y Cynghorwyr fod y Plac Coffa ar y rheilins newydd yn Heol Cilgant wedi diflannu. Dywedwyd am hyn wrth yr Heddlu. .

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk